

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth / Headteacher: Mr R. Clive Williams

## **COFRESTRU ar gyfer EISTEDDFOD YR URDD 2022**

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu am ddyddiadau pwysig parthed cofrestru ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2022. O hyn ymlaen, **chi fel rhieni/gwarcheidwaid sy'n gyfrifol am gofrestru unigolion i gystadlu – nid yr ysgol.**

### **Dyma'r neges ar wefan yr Urdd:**

*Yma, byddi di'n gallu cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Cofia ddarllen y Rhestr Testunau a'r rheolau [yma](#) cyn mynd ati i gofrestru.*

*Bydd angen cofrestru erbyn y dyddiad cau sef:*

*14eg o Chwefror ar gyfer cystadlaethau Llwyfan a Maes*

*1af o Fawrth ar gyfer cystadlaethau Llwyfan sy'n mynd yn syth i'r Genedlaethol, a chystadlaethau Cyfansoddi a Chreu (heblaw Celf, Dylunio a Thechnoleg)*

*Sed o Ebrill ar gyfer cystadlaethau'r Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg (rhifau 170-295)*

*Mae aelodau yn gallu cofrestru yma ar gyfer cystadlaethau unigol. Os wyt ti eisiau cystadlu mewn grŵp (er enghraifft deuawd, triawd, ensemble, parti neu gôr) yna bydd angen i dy Arweinydd Cangen gofrestru y grŵp.*

### **Felly, beth nesaf?**

1. Ar gyfer cofrestru, ewch i wefan yr Urdd ac i Adran yr Eisteddfod:  
[Eisteddfod yr Urdd | Urdd Gobaith Cymru](#)
2. Dilynwch y botymau gwahanol ar gyfer cyrraedd 'Cofrestru i Gystadlu'.
3. Bydd angen i chi logio i mewn i'r Porth (yn defnyddio'r manylion pan wnaethoch chi ymaelodi eich plentyn)
4. Os nad yw'ch plentyn yn aelod, bydd angen i chi ymaelodi yn gyntaf, ac yna cofrestru.
5. Cofiwch mai ar gyfer cystadlu yn unigol yw hyn. Os yw eich plentyn mewn e.e côr neu grŵp llefaru, mi fydd yr ysgol yn eu cofrestru (ond mi fydd dal yn rhaid i'r plant fod yn aelodau wrth gwrs).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae'r Urdd yn eich annog i gysylltu gyda [eisteddfod@urdd.org](mailto:eisteddfod@urdd.org)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

## **REGISTERING for the URDD EISTEDDFOD 2022**

*Dear Parents / Guardians,*

*The purpose of this letter is to inform you of important dates regarding registration for the Urdd Eisteddfod 2022. From now on, you as parents/guardians are responsible for registering individuals to compete - not the school.*

### ***Here is the message on the Urdd website:***

Here, you can register to compete in the 2022 Urdd Eisteddfod. Don't forget to read the Syllabus and rules [here](#) before starting the registration process.

You'll need to register before the following closing dates:

14th of February for Stage and Maes competitions

1st of March for Stage competitions that go straight to the National Eisteddfod, and Composing and Creating competitions (except Art, Design and Technology)

5th of April for Art, Design and Technology Competitions (number 170-295)

Urdd members can register to compete for solo competitions. If you'd like to register as a group (as a duet, trio, ensemble, party or choir for example) then your Branch Leader will need to register your group.

### ***So, what next?***

- 1. For registration, visit the Urdd website and the Eisteddfod Department:  
[Urdd Eisteddfod | Urdd Gobaith Cymru](#)*
- 2. Follow the different buttons to reach 'Register to Compete'.*
- 3. You will need to log in to the Portal (using the details when you signed your child up to Urdd membership)*
- 4. If your child is not a member, they will need to become a member first, and then register.*
- 5. Remember that this is for individual competitions only. If your child is in a choir or recitation group, the school will register them (but the children will still have to be members of the Urdd of course).*

*If you have any questions, the Urdd encourages you to contact [eisteddfod@urdd.org](mailto:eisteddfod@urdd.org)*

R C Williams  
Headteacher  
20/01/2022